



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar  
Gymuned Ddysgu Ebbw Fawr**

**Lime Avenue  
Glynebwy  
Blaenau Gwent  
NP23 4GL**

**Dyddiad arolygu: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddus eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn â Chymuned Ddysgu Ebbw Fawr

Enw'r darparwr	Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr
Awdurdod lleol	Blaenau Gwent
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Ysgol pob oed
Cymeriad crefyddol	Ddim yn berthnasol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1381
Disgyblion o oed ysgol statudol	1315
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin	40
Nifer yn y chweched dosbarth	Ddim yn berthnasol
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 21.6%)	28.1%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 11.0%)	11.4%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	0.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	1.4%
Dyddiad y penodwyd y pennaeth	01/09/2016
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol)	08/02/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn	27/11/2023

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:  
[fysgolleol.llyw.cymru](http://fysgolleol.llyw.cymru)

- Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae staff yng Nghymuned Dysgu Ebbw Fawr yn ymrwymo i weledigaeth yr ysgol, sef creu amgylchedd diogel a gofalgwr i sicrhau bod disgyblion yn 'dysgu i gyflawni gyda'i gilydd'. Mae'r pennaeth, sy'n fodel cryf o ymddygiad, gyda disgwyliadau uchel ar ei gyfer ef ei hun ac eraill, yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir. Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn llwyddo i greu ethos ar draws safleoedd yr ysgol sy'n crisialu 'Ffordd Ebbw Fawr', sef bod 'Yn Barod, Yn Barchus ac Yn Ddiogel'.

Mae hyrwyddo lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol ac mae ganddi ystod helaeth o ddarpariaeth i gefnogi disgyblion mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. Mae hyn yn cyfrannu tuag at ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol. Nodwedd gadarnhaol o'r ysgol yw ei chyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio ac yn addasu gwaith sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Maent yn ymgysylltu disgyblion yn eu dysgu, yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n perthyn i'w bywydau bob dydd ac yn dileu rhwystrau rhag dysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod cynradd a llawer o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud o leiaf cynnydd addas dros gyfnod. Er bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd a darllen, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml nac yn ddigon pwrpasol.

Mae athrawon yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda ac mae trefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb da. Mae rhaglen 'Ebbw Vale Engage' ('EVE') yn sicrhau bod ychydig o ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn mynychu'n rheolaidd ac yn elwa o ddarpariaeth arall oddi ar y safle. Er bod presenoldeb adeg yr arolygiad yn is o hyd nag yr oedd cyn y pandemig, mae wedi gwella'n sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae'r ganolfan adnoddau dysgu yn cefnogi disgyblion uwchradd ag amrywiaeth o anghenion addysgol ychwanegol arwyddocaol yn llwyddiannus i wneud cynnydd cadarn a mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion yn effeithiol. Maent yn monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn ofalus ac yn gweithredu newidiadau'n effeithiol. Defnyddiant safbwyntiau disgyblion a rhieni'n dda i wneud gwelliannau i'r ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer lles disgyblion. Fodd bynnag, wrth werthuso'r addysgu, nid yw arweinwyr bob amser yn ystyried yr effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon da.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

- A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fwy penodol ar effaith addysgu ar ddysgu

- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ac ysgrifennu'n estynedig at ddibenion dilys

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig ag effaith yr ymagwedd ysgol gyfan at ddileu rhwystrau rhag dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Addysgu a dysgu

Mae bron pob un o'r athrawon a staff yng Nghymuned Dysgu Ebbw Fawr yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ffurfio perthnasoedd gweithio cadarnhaol â nhw. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac, ar y cyfan, maent yn rheoli hyn yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gyfeillgar, yn frwdfrydig ac yn ymddwyn yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trin ei gilydd gyda pharch ac yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau bach, gan gydweithredu'n dda â'i gilydd. Dangosant agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn y cyfnod cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu o'u pwyntiau dechrau unigol. Yn y cyfnod uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o leiaf, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi a thros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodolau da o iaith ac yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o Gwricwlwm i Gymru a chyflwynant brofiadau dysgu priodol. Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn am eu pwnc ac yn gwreiddio arferion ystafell ddosbarth yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio ac addasu gweithgareddau sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Maent yn dileu rhwystrau rhag dysgu yn llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas, o leiaf.

Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau ei fod yn hyrwyddo annibyniaeth disgyblion, yn enwedig i'r disgyblion ieuengaf. Mae'r athrawon hyn yn creu amgylcheddau dysgu ysgogol ac yn gwneud defnydd creadigol o adnoddau. Cynlluniant weithgareddau sy'n adeiladu'n dda ar ei gilydd ac sy'n ennyn diddordeb disgyblion trwy gysylltu gweithgareddau dysgu â'u bywyd bob dydd.

## **Cameo – Defnydd creadigol o adnoddau**

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn y dosbarthiadau oed cynradd yn gwneud defnydd medrus o adnoddau i wneud eu hystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau difyr gyda chyfleoedd clir i ddatblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ysgogiadau o fywyd go iawn yn rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 2 a 3 yn archwilio ac yn tynnu llun ystifflog (squid) go iawn. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau dysgu sy'n dathlu amrywiaeth; er enghraifft, mae disgyblion yn darllen stori 'Amazing Grace' ac yn gwneud patrymau rangoli a Lampiau Diva.

Mewn llawer i achos, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd â diben clir ac sy'n hyrwyddo datblygiad annibyniaeth disgyblion a'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Rhoddant gyfarwyddiadau clir a chryno, a defnyddiant staff cymorth yn effeithiol i fodloni anghenion unigol. Maent yn darparu adborth llafar priodol ac yn gofyn cwestiynau heriol i sicrhau dealltwriaeth. Mae eu hadborth ysgrifenedig defnyddiol yn annog disgyblion i ddarllen eu sylwadau a'u defnyddio i symud eu dysgu yn ei flaen.

Mewn ychydig achosion yn y cyfnod uwchradd, mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau nad ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol, gan arwain at gyflymder dysgu araf. Maent yn sgaffaldio gweithgareddau yn sylweddol, gan gyfyngu ar greadigrwydd ac annibyniaeth disgyblion.

Mae athrawon yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn llunio perthnasoedd gwaith da a chadarnhaol gyda disgyblion. Maent wedi sefydlu arferion cadarn sy'n helpu disgyblion i gadw at y dasg a chanolbwyntio. Mae'r athrawon hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrion. Maent yn cynllunio a chyflwyno dilyniant o weithgareddau sy'n adeiladu'n drefnus ar ei gilydd ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn gwrando'n effeithiol ar athrawon a chymheiriaid ac yn parchu eu safbwyntiau. Mae llawer ohonynt yn darllen ac yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio amrywiaeth addas o eirfa, ac ar y cyfan, gyda chywirdeb.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus, sef galluogi disgyblion i fod yn uchelgeisiol a'u paratoi i fod yn ddinasyddion y dyfodol. Mae'n darparu mynediad teg i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, o aelwydydd ag incwm isel a'r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae arweinwyr yn addasu'r cwricwlwm yn ofalus i fodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, mae prosiect 'Ebbw Vale Engage' (EVE) yn galluogi disgyblion i elwa o brofiad gwaith defnyddiol ac mae'n cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Yn y ganolfan adnoddau dysgu, mae cwricwlwm wedi'i bersonoli yn datblygu medrau disgyblion ar gyfer y cam dysgu nesaf yn effeithiol. Mae staff hynod fedrus yn darparu sesiynau medrau bywyd a chymdeithasol gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu sgysrsiau a gwneud ffrindiau. Mae hyn yn helpu'r disgyblion hyn i gyflawni cymwysterau priodol.

Mae 'Cwricwlwm Enfys', sef fframwaith a ddatblygwyd gydag ysgolion cynradd partner yn y clwstwr i gynorthwyo â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, yn helpu athrawon i gynllunio datblygiad medrau yn gynyddol. O ganlyniad, mae disgyblion

sy'n symud i'r cyfnod uwchradd o'r cyfnod cynradd yn elwa o gwricwlwm sy'n ddi-dor. Mae ystod addas o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso a datblygu'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er bod y cwricwlwm yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, mae cyfleoedd mwy cyfyngedig iddynt ddatblygu'u medrau ysgrifennu estynedig.

Mae'r ysgol yn cefnogi ymwybyddiaeth bersonol, ysbrydol, foesol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy wasanaethau a sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) pwrpasol. Mae'r ysgol yn defnyddio darparwyr allanol ac elusennau yn dda i gyfoethogi'r ddarpariaeth hon ac i ymateb i anghenion presennol fel bwyta'n iach, ymarfer corff ac iechyd meddwl.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, mewn gwersi gwerthoedd crefyddol a moeseg, mae disgyblion yn dysgu am wahaniaethu a rhagfarn yn erbyn cymunedau pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang a buddiol o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau ehangach, gan gynnwys medrau personol, corfforol a chreadigol. Mae hyn yn cynnwys Gwobr Dug Caeredin, clwb bwyta'n iach, a phrofiadau coetir a theatr. Mae'r ysgol yn ymestyn dysgu disgyblion yn dda trwy deithiau ysgol, derbyn mewnbwn gan ymwelwyr â'r ysgol a gweithio mewn partneriaeth. Hefyd, mae'r ysgol yn sicrhau nad yw cost gweithgareddau yn rhwystr rhag dysgu. Er enghraifft, gall yr holl ddisgyblion fanteisio ar wersi offerynnau cerdd yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn cynnwys sesiynau dosbarth cyfan rheolaidd i'r holl ddisgyblion cynradd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig trwy weithgareddau fel eisteddfodau, ymweliadau â'r ardal leol a'r daith breswyl flynyddol i Langrannog. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu cymuned leol a datblygu dealltwriaeth o sut beth yw tyfu i fyny yn y Gymru fodern. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dysgu am waith pobl leol o ddiddordeb, fel Aneurin Bevan, y Fonesig Rhondda a Keir Hardie.

Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn gryfder. Mae disgyblion yn elwa o amrywiaeth o gyfleoedd defnyddiol a ddarperir trwy bartneriaid allweddol, o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt, er enghraifft trwy sesiynau 'Wonder Wednesdays' a 'Table Talk Thursday'.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd yn darparu profiadau a gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion am yrfaeod a byd gwaith. Er enghraifft, denodd prosiect y cyn-ddisgyblion dros 50 ohonynt i siarad â disgyblion am eu bywyd ym myd gwaith a chyfleoedd yn dilyn eu hamser yn yr ysgol. Mae partneriaid allanol, fel busnesau lleol, sy'n cynnig cyngor i ddisgyblion am brentisiaethau a llwybrau ôl-16, yn cefnogi'r ddarpariaeth hon yn dda.

## **Crynodeb o ddatblygiad disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, y Gymraeg a medrau eraill:**

### **Llythrennedd**

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'u medrau siarad a gwranddo yn gyflym, gan ddysgu geirfa newydd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gymryd rhan yn effeithiol mewn chwarae rôl wrth iddynt wneud te prynhawn i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn y cyfnod cynradd yn gwranddo'n astud ar staff a'i gilydd. Maent yn ystyried syniadau eu cymheiriaid yn ofalus, yn cyfrannu'n hyderus at drafodaethau'r dosbarth ac yn mynegi eu barn yn llwyddiannus. Mae hyn yn parhau i'r cyfnod uwchradd lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau. Er bod ychydig ddisgyblion oed uwchradd yn datblygu eu hymatebion i gwestiynau yn fanwl pan ofynnir iddynt wneud, mae llawer ohonynt ond yn cynnig ymatebion byr ac nid yw athrawon bob amser yn eu herio i ddatblygu eu hatebion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffonog ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei ddarllen ac maent yn defnyddio sgimio a sganio yn briodol i ddod o hyd i wybodaeth allweddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn y cyfnod cynradd yn ddarllenwyr hyderus a datblygant eu rhuglder a'u mynegiant. Dewisant ddeunyddiau darllen cynyddol aeddfed sydd o ddiddordeb iddyn nhw, fel 'Dyddiadur Anne Frank'. Maent yn dechrau darllen rhwng y llinellau a dangos empathi tuag at gymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion uwchradd yn dod o hyd i ffeithiau penodol yn gywir o destunau gwybodaeth. Mae'r mwyafrif ohonynt yn crynhoi prif syniadau ac yn datblygu medrau darllen uwch fel dadansoddi, dod i gasgliad a synthesis yn addas pan fyddant yn cael y cyfle i wneud hynny. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn cael trafferth esbonio arwyddocâd syniadau allweddol mewn testunau yn annibynnol.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol, gan wneud i'w beiros 'ddawnsio' i fyny ac i lawr y papur. Mae llawer o ddisgyblion ieuengach yn dechrau defnyddio'u llythrennau a seiniau'n dda wrth sillafu geiriau anghyfarwydd ac maent yn ymestyn eu syniadau yn frawddegau syml. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn y cyfnod cynradd yn datblygu medrau iaith cadarn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o iaith drosiadol, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio onomatopeia a phersonoli. Fodd bynnag, wrth iddynt symud drwy'r ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu am gyfnodau estynedig neu'n hirach yn ddigon da. Mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn cynllunio ac yn strwythuro'u hysgrifennu'n drefnus. Maent yn amrywio eu naws a'u geirfa yn addas i'r diben a'r gynulleidfa. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn cael trafferth ysgrifennu'n rhugl gan ddefnyddio iaith ffurfiol. Yn ogystal, gwnânt wallau sillafu, atalnodi a gramadeg rheolaidd. Er bod llawer o ddisgyblion hŷn yn y cyfnod cynradd yn ymfalchïo mewn cyflwyno eu gwaith, nid yw llawysgrifen a medrau cyflwyno ychydig o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigon da. Mae gan leiafrif o ddisgyblion oed uwchradd lawysgrifen a medrau cyflwyno gwael sy'n cael effaith negyddol ar eu gwaith.

## **Rhifedd**

Mae'r ffocws ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u dealltwriaeth gysyniadol a'u medrau rhesymu rhifiadol o fewn eu gwersi mathemateg yn gryfder. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar gysylltu dysgu newydd â'r hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod a symud rhwng cynrychioliadau diriaethol, darluniadol a haniaethol o gysyniadau. Ar draws y cwricwlwm, mae amrywiaeth addas o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso a datblygu'u medrau rhifedd. Er gwaethaf eu pwyntiau dechrau isel, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn y cyfnod cynradd, mae disgyblion iau'n dangos dealltwriaeth dda o werth lle i gant. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod cynradd, maent yn adeiladu ar eu medrau rhif cynnar yn dda. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'u medrau mathemateg yn briodol, er enghraifft wrth gyfrifo cost deunyddiau i wneud toes halen ar gyfer caffi chwarae rôl y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn y cyfnod cynradd yn defnyddio'u gwybodaeth am ffeithiau rhif yn effeithiol ac maent yn cymhwyso'u medrau'n briodol i ddatrys problemau. Defnyddiant weithrediadau gwrthdro yn dda i wirio dilysrwydd eu hatebion.

Yn y cyfnod uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o rif yn dda. Defnyddiant bedair rheol rhif yn hyderus ac maent yn trosi rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion. Mewn gwyddoniaeth, maent yn defnyddio a chymhwyso hafaliadau a fformiwlaâu yn llwyddiannus, er enghraifft y rhai sy'n cysylltu cerrynt, foltedd a gwrthiant, i ddatrys problemau rhifiadol. Mae gan llawer o ddisgyblion amgyffrediad addas o siâp a mesuriadau. Yn eu gwersi mathemateg, maent yn trosi rhwng gwahanol fesuriadau ac yn datrys problemau'n ymwneud â pherimedr ac arwynebedd siapiau amrywiol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dadansoddi data'n dda, er enghraifft pan fyddant yn dehongli graffiau mewn daearyddiaeth i ddisgrifio'r cydberthynas rhwng incwm cyfartalog gwlad a disgwyliad oes ei phreswylwyr. Mae medrau rhif sylfaenol ychydig o ddisgyblion yn y sector uwchradd yn wan. Mae hyn yn rhwystro datblygiad eu medrau rhifedd.

## **Medrau digidol**

Mae mwyafrif disgyblion y cyfnod cynradd yn datblygu'u medrau digidol yn addas. Mae disgyblion iau yn defnyddio cymwysiadau digidol gyda hyder cynyddol, er enghraifft wrth ddefnyddio mapiau ar-lein i adnabod ffyrdd ac ardaloedd sy'n gyfarwydd iddynt. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gallu i gynhyrchu a mireinio'u gwaith yn ddigidol. Mae disgyblion hŷn yn creu cyflwyniadau gan ychwanegu hyperddolenni a thrawsnewidiadau i wella'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod uwchradd yn cymhwyso'u medrau digidol yn dda ar draws y cwricwlwm. Defnyddiant feddalwedd a phlatfformau penodol i gynhyrchu cyflwyniadau a dadansoddi data. Maent yn gweithio'n gydweithredol ar ddogfennau, yn cynhyrchu ac yn golygu fideos, ac yn mewnlannu ffeiliau mewn cyflwyniadau.



## **Medrau Cymraeg**

Mae llawer o ddisgyblion cynradd yn datblygu'u medrau Cymraeg yn addas, gan ddefnyddio ymadroddion a chyfarchion Cymraeg gyda hyder cynyddol. Mae llawer o ddisgyblion cynradd hŷn yn ymateb i gwestiynau yn amser y presennol yn briodol, er enghraifft esbonio pwy ydyn nhw, sut maen nhw'n teimlo a beth yw eu hoedran nhw. Maent yn dechrau ymestyn eu brawddegau yn y Gymraeg yn addas.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oed uwchradd yn cyfrannu'n gadarnhaol yn ystod ymarferion drilio iaith mewn gwersi Cymraeg. Maent yn ynganu geiriau Cymraeg sylfaenol yn gywir ac yn gallu cynnal sgysiau byr yn y Gymraeg mewn parau neu grwpiau. Mae llawer ohonynt yn gallu ateb cwestiynau yn y Gymraeg gan ddefnyddio brawddegau llawn, er bod ychydig ohonynt yn cam-ynganu geiriau Cymraeg weithiau. Mae llawer ohonynt yn darllen geiriau, brawddegau a pharagraffau byr Cymraeg ar goedd yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn cynhyrchu darnau cywir, byr o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Mae lleiafrif ohonynt yn strwythuro paragraffau estynedig o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg yn dda. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth am dreigladau yn gywir yn eu hysgrifennu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gwallau esgeulus yn eu gwaith Cymraeg ysgrifenedig.

## **Medrau eraill**

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigol, cerddorol a chorfforol yn dda trwy amrywiaeth o wersi a gweithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod cynradd yn datblygu dealltwriaeth o rythm a churiad trwy eu gwaith ar allweddellau. Mae disgyblion yn datblygu'u medrau creadigol a dychmygus yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o weithgareddau strwythuredig sy'n cynorthwyo disgyblion i fynegi eu hunain yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod cynradd yn arddangos medrau perfformio cadarn ac maent yn mynegi eu hunain yn greadigol trwy ddrama a dawn. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau corfforol effeithiol ac yn dangos ystwythder, cydbwysedd a rheolaeth yn eu gweithredoedd.

## **Gofal, cymorth a lles**

Mae staff yng Nghymuned Ddysgu Ebbw Fawr yn ymrwymo i weledigaeth yr ysgol, sef creu amgylchedd diogel a gofalgar i sicrhau bod disgyblion yn 'dysgu cyflawni gyda'i gilydd'. Mae hyrwyddo lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol ac mae staff yn sensitif i anghenion unigol disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o ddarpariaethau teilwredig sy'n cynorthwyo disgyblion i wella'u lles mewn amgylchedd cynhwysol. Caiff pob disgybl gyfle i enwebu 'rhywun i droi ato' er mwyn sicrhau bod ganddynt oedolyn y gallant droi ato am gymorth ac arweiniad. Mae staff yn gweithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ychwanegol buddiol i'r disgyblion hynny sydd ei angen.

Mae'r ysgol wedi datblygu diwylliant diogelu cryf. Mae staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant buddiol rheolaidd yn y maes hwn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau wrth sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn ddiogel. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfeirio materion diogelu neu amddiffyn plant yn fanwl ac yn drylwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth berthnasol yn fuddiol i nodi a monitro lles disgyblion bregus yn ofalus.

Mae'r ysgol yn delio'n amserol ac yn effeithiol gyda'r ychydig iawn o achosion o fwlio sy'n digwydd. Nodwedd gref o waith yr ysgol yn y maes hwn yw gwaith y llysgenhadon gwrthfwlio. Mae'r disgyblion hyn yn gweithio'n rhagweithiol i hyrwyddo parch a chynnal clinigau cyngor gwrthfwlio i'w cymheiriaid. Mae presenoldeb staff mewn coridorau ac yn ystod amseroedd egwyl yn rhoi sicrwydd i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn darparu amrywiol ffyrdd i ddisgyblion rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt, gan gynnwys ap hunangyfeirio'r ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg a'u bod yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn fanwl i nodi tueddiadau ym mhresenoldeb disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion. Cryfder nodedig yng ngwaith yr ysgol i wella presenoldeb yw gwaith staff, gan gynnwys y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, i feithrin perthnasoedd â theuluoedd, fel bod staff yn deall y rhwystrau rhag bod disgyblion yn bresennol yn rheolaidd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gwobrau a roddir am lefelau uchel o bresenoldeb, yn ogystal ag ymgysylltu cadarnhaol ac ymddygiad da. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith ymyriadau presenoldeb yn rheolaidd ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi arwain at welliannau sylweddol yng nghyfradd bresenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn y cyfnod cynradd, mae'r gyfradd bresenoldeb, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, wedi gwella'n sylweddol eleni ac mae'n agos at lefelau cyn y pandemig. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae cyfradd bresenoldeb disgyblion yn y cyfnod uwchradd islaw'r hyn a welwyd cyn y pandemig o hyd.

I ymateb i'r cynnydd a welwyd mewn ymddygiad heriol yn dilyn y pandemig, mae'r ysgol wedi diwygio'i pholisi ymddygiad yn ddiweddar ar y cyd â staff a disgyblion. Mae'r polisi newydd hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson gan staff. Rhan allweddol o'r strategaeth ymddygiad yw'r sgysiau adferol a gynhelir i sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu hailadeiladu yn dilyn unrhyw ddigwyddiad. Mae arweinwyr yn dadansoddi data ar ymddygiad disgyblion yn drylwyr i nodi disgyblion sydd angen cymorth arbenigol yn y cyfnod uwchradd. Caiff disgyblion ag anawsterau ymddygiadol cymdeithasol ac emosiynol gefnogaeth dda trwy ddarpariaeth cwricwlwm arall yr ysgol, 'EVE', sydd wedi cael effaith fuddiol ar bresenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad y disgyblion hyn. Mae gweithredu'r dulliau hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn ymddygiad disgyblion, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwrsi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae disgyblion ag ADY yn elwa o ddarpariaeth addas ac awyrgylch meithringar a diogel. Mae ymyriadau priodol ar waith i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Mae gan ddisgyblion ag ADY broffiliau un dudalen defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am sut gall staff eu cynorthwyo nhw orau. Mae'r ysgol yn datblygu ei ddarpariaeth yn briodol yn unol â gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Yn y ganolfan adnoddau dysgu, mae perthynas agos ac adeiladol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion a'u hanghenion unigol yn dda ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni. Mae aelodau staff perthnasol sy'n gweithio ar y campws uwchradd yn cael gwybod am anghenion unigol disgyblion y ganolfan cyn iddynt ddod i wersi prif ffrwd ac mae holl aelodau staff yr ysgol yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Nodwedd ragorol o'r cyfnod uwchradd yw'r ffordd y mae disgyblion yn dylanwadu ar waith yr ysgol, er enghraifft trwy'r amrywiol grwpiau arweinyddiaeth. Er enghraifft, creodd arweinwyr ap blaengar "Spot it, Sort it" yn sgil pryder disgyblion am deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. O ganlyniad i safbwyntiau a roddwyd ar yr ap hwn, cyflwynodd arweinwyr reol y dylid cerdded ar y chwith mewn coridorau, sydd wedi arwain at awyrgylch mwy digynnwrf.

### **Cameo – Grwpiau arweinyddiaeth**

Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Yn gyfan gwbl, mae gan ryw 400 o ddisgyblion rolau arweinyddiaeth neu lysgennad. Mae'r grwpiau'n gynhwysol ac yn amrywiol. Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn bod yn llysgennad ac maent yn weladwy ac yn weithgar yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent wedi datblygu medrau arweinyddiaeth gwerthfawr wrth gynrychioli a chynghori eu cymheiriaid. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon hawliau plant a Ffordd Ebbw Fawr wedi cysylltu gwerthoedd craidd yr ysgol â hawliau disgyblion ac wedi sicrhau bod ystyriaeth yr wythnos yn canolbwyntio ar un o hawliau plentyn y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol a chynhwysol o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol i ddisgyblion. Mae cynhyrchiad blynyddol yr ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion cynradd ac uwchradd gydweithredu, datblygu eu creadigrwydd a chynyddu eu hyder. Mae staff yn ysbrydoli disgyblion yn y ddau gyfnod i fod yn weithgar ac yn iach yn gorfforol. Mae'r ysgol yn cynnig codi hwyl, pêl law a thriathlon, yn ychwanegol at chwaraeon mwy traddodiadol.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen bontio ôl-16 gynhwysfawr sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 10 yn cynnal plattform 'Wonder Wednesday', lle gall eu cymheiriaid ofyn am wybodaeth am lwybrau gyrfaol yn y dyfodol. O ganlyniad i hyn, mae amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o fyd gwaith yn ymweld â'r ysgol i roi arweiniad i'r disgyblion.

### **Arwain a gwella**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i'r ysgol. Mae'n fodel cryf o ymddygiad sydd â disgwyliadau uchel ar ei gyfer ef ei hun ac eraill. Mae penaethiaid ysgol ar y ddau safle a gweddill yr uwch dîm arwain yn ei gefnogi'n dda. Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau wedi'u dosbarthu'n briodol. Gyda'i gilydd, maent yn ymfalchïo mewn hyrwyddo ac ymgorffori gwerthoedd craidd yr ysgol, sy'n cynnwys caredigrwydd, blaenoriaethu lles pawb a mynd 'y filltir ychwanegol'. Mae uwch arweinwyr i'w gweld o gwmpas safleoedd yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at godi dyheadau disgyblion, er enghraifft trwy gynnal stondin 'balchder' yn rheolaidd lle mae llwyddiannau diweddar disgyblion yn cael eu cydnabod.

Mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda ac maent wedi gweithredu newidiadau yn llwyddiannus sydd wedi ysgogi gwelliannau dros gyfnod. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod disgyblion yn cael dylanwad cryf ar waith yr ysgol. Cryfder nodedig yw'r ffordd y mae uwch arweinwyr yn defnyddio arolygon disgyblion a rhieni i nodi a gweithredu ar feysydd i'w gwella ym maes lles.

### **Cameo – Gwella darpariaeth o ganlyniad i adborth disgyblion**

Dadansoddodd arweinwyr holiaduron disgyblion a darganfod, ar ôl y pandemig, bod nifer y disgyblion a oedd yn gofidio am fwlio wedi cynyddu. Lansiodd yr ysgol ei hymgyrch 'spot it, sort it'. Gall disgyblion roi gwybod am ddigwyddiadau i'w 'rhywun i droi ato'. Dyma aelod staff y maent yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw. Neu, gallant droi at lysgennad gwrthfwlio yn ystod amser egwyl. Yn ogystal, gall disgyblion droi at ap pwrpasol a grëwyd gan dîm technoleg gwybodaeth yr ysgol yn yr ysgol neu adref. Gallant ddefnyddio'r ap i ofyn am help i'w hunain neu i amlygu pryder y gallai rhywun arall elwa o gymorth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r ap trwy bosteri deniadol a sgriniau gwybodaeth ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r arolygon diweddaraf a ddadansoddwyd gan yr ysgol wedi dangos gostyngiad ym mhryderon disgyblion. Yn ddiweddar, datblygwyd yr ymgyrch a'r ap ategol ymhellach i annog disgyblion i wella darpariaeth yr ysgol mewn ffyrdd eraill, er enghraifft i ddisgyblion gyfeirio'u hunain am gwnsela.

Mae gan yr ysgol galendr addas o weithgareddau sicrhau ansawdd i helpu arweinwyr i gasglu tystiolaeth am gryfderau a meysydd i'w gwella yn ei darpariaeth. Mae uwch arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso traws-cyfnod buddiol i fwrw golwg ar feysydd allweddol, fel llythrennedd a phresenoldeb. Mae arweinwyr yn gwerthuso'n gadarn ddarpariaeth yr ysgol i ddisgyblion y mae tlodi yn effeithio arnynt. Yn y cyfnod uwchradd, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio tystiolaeth o weithgareddau llais y disgybl a chraffu ar waith yn briodol i werthuso agweddau ar eu gwaith, fel Cwricwlwm i Gymru. Er bod uwch arweinwyr yn defnyddio arsylwadau gwersi yn addas i nodi meysydd i'w datblygu yn yr addysgu, nid yw arweinwyr canol yn cael digon o gyfleoedd i arsylwi gwersi i'w helpu i werthuso'r ddarpariaeth a'r dysgu o fewn adrannau uwchradd. Yn yr enghreifftiau gorau, yn enwedig yn y cyfnod cynradd, mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn briodol. Mae arweinwyr yn dechrau ystyried effaith addysgu ar ddysgu disgyblion ond nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar bob lefel ac ar draws y ddau gyfnod.

Ar y cyfan, mae arweinwyr canol yn deall eu rolau yn addas. Mae arweinwyr wedi meithrin diwylliant cryf o gydweithredu rhwng y cyfnod cynradd a'r adrannau pwnc uwchradd. Mae arweinwyr canol yn elwa o gyfarfodydd cyswllt rheolaidd ag uwch arweinwyr sy'n canolbwyntio'n addas ar addysgu a dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn ganolog i waith yr ysgol. Er enghraifft, i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddysgu, defnyddiant y grant datblygu disgyblion i ariannu cludiant gartref i ddisgyblion sy'n mynd i glybiau allgyrsiol ar y safle uwchradd, gyda chyfraddau uwch o ddisgyblion yn cymryd rhan o ganlyniad. Maent yn helpu mynd i'r afael â rhwystrau a all rwystro disgyblion rhag teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu banciau gwisg ysgol a chyfleusterau golchi dillad. Mae staff yn ddiplino i sicrhau bod disgyblion yn gallu cael at bob profiad dysgu perthnasol trwy weithio'n agos ag

asiantaethau a theuluoedd i ddeall a gwneud yn iawn am ffactorau a all atal disgyblion rhag cymryd rhan.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus i sicrhau bod ganddi broffil uchel ar draws yr ysgol. O ganlyniad i gyfleoedd mewn gwersi a gweithgareddau allgyrsiol, mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu a defnyddio'r iaith. Yn ogystal, mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau Cymraeg eu hunain.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau rheoli perfformiad a rhai ysgol gyfan. Mae gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddatblygu addysgu a dysgu trwy gamau gwella bach. Mae hyn yn arbennig o sefydledig yn y cyfnod sylfaen, lle mae'r holl staff ystafell ddosbarth yn ymgymryd ag ymchwil ar sail ymholiad i ddatblygu eu hymarfer. Mae staff ar draws y ddau gyfnod yn cydweithio'n dda â'i gilydd a chydag ysgolion eraill i rannu arfer dda. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu medrau arweinyddiaeth. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn buddsoddi amser, egni ac adnoddau sylweddol mewn dod yn sefydliad sy'n ymrwmo i welliant parhaus. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o weledigaeth a chryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn dda. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddiol sy'n eu helpu i ehangu eu dealltwriaeth o agweddau penodol ar waith yr ysgol, fel ymgymryd â thaith ddysgu i werthuso profiadau disgyblion yn ystod amser cinio.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a llywodraethwyr yn gosod y gyllideb yn briodol ac yn monitro gwariant yn agos. Maent yn neilltuo cyllid, gan gynnwys cyllid grant, yn addas i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol, fel defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i leihau effaith tlodi ar les a chyflawniad.

## **Cydymffurfiaeth statudol**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch safleoedd yn peri unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiaduron i rieni a disgyblion ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle y bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. 'y rhan fwyaf o ddisgyblion...' neu 'ychydig iawn o ddisgyblion...'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2024